

GWISG YSGOL GYFUN GYMRAEG RHYDYWAUN MEDI 2020

Yn Ysgol Gyfun Rhydywaun credwn fod dysgu gwisgo'n briodol yn rhan o addysg dda sy'n cyfranogi at ddatblygiad hunan-ddisgyblaeth a hunan-werth.

Mae gwisg ysgol gywir yn gosod hinsawdd o safonau uchel, balchder a threfn yn yr ysgol.

Mae'r polisi hwn wedi ei lunio er mwyn cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru (dogfen 247/2019) ar wisg ysgol.

Os nad yw disgybl yn cydymffurfio â rheolau gwisg ysgol, byddwn yn disgwyl gweld nodyn gan rieni sy'n esbonio'r rheswm â manylion ynglyn â phryd bydd y wisg yn gywir eto.

Os oes unrhyw amheuan gennych os yw eitem gwisg yn cydymffurfio â'r rheolau neu beidio e.e. trowsus neu esgidiau, gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol i drafod cyn prynu'r eitem.

Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol lawn a chywir bob dydd yn yr ysgol o 14 Medi 2020.

BLWYDDYN 7 - 11

- Crys neu flows ysgol wen blaen llewys byr neu lewys hir gyda botwm lan at y gwddf. Dim bathodynau e.e. bathodyn clwb rygbi ar y crys.
- Tei swyddogol yr ysgol.
- Siwmpwr goch swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni.
- Crys polo coch swyddogol yr ysgol gyda bathodyn yr ysgol arno (misoedd Medi, Hydref, Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf yn unig). **Noder: O Fedi 2021 ni fydd crys polo coch yn rhan o wisg Ysgol Rhydywaun.**
- Trowsus du plaen sy'n cyrraedd yr esgid - **Dim 'jeans', culottes, trowsus tynn na legins** neu sgert ddu blaen.
- Sanau du gyda throwsus. Teits du neu sanau du plaen gyda sgert.
- Addurniadau gwallt sy'n ddu/llwyd tywyll/glas tywyll yn unig.
- Lliw gwallt naturiol. Ni chaniateir lliw gwallt annaturiol.
- Esgidiau du plaen. Dim esgidiau ymarfer corff. Sodlau dim uwch na 4cm
- Cot aeaf neu got law du neu liw glas/llwyd tywyll.
- Ni chaniateir 'hoodies' na chotiau chwaraeon.
- Sgarff ddu, hetiau gaeaf du neu liw tywyll.
- **Ni chaniateir unrhyw emwaith.**

BLWYDDYN 12 + 13

- Crys neu flows ysgol wen blaen llewys byr neu lewys hir gyda botwm lan at y gwddf. Dim bathodynau e.e. bathodyn clwb rygbi ar y crys.
- Tei swyddogol y Chweched (du a melyn).
- Blaser ddu swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni.
- Trowsus du plaen sy'n cyrraedd yr esgid - **Dim 'jeans', culottes, trowsus tynn na legins** neu sgert ddu blaen.
- Sanau du gyda throwsus. Teits du neu sanau du plaen gyda sgert.
- Addurniadau gwallt sy'n ddu/llwyd tywyll/glas tywyll yn unig.
- Lliw gwallt naturiol. Ni chaniateir lliw gwallt annaturiol.
- Esgidiau du plaen. Dim esgidiau ymarfer corff. Sodlau dim uwch na 4cm.
- Cot aeaf neu got law du neu liw glas/llwyd tywyll.
- Ni chaniateir 'hoodies' na chotiau chwaraeon.
- Sgarff ddu, hetiau gaeaf du neu liw tywyll.
- Caniateir un pâr o glustdlysau bach (studs) yn y glust yn unig. Ni chaniateir studs neu dlysau yn y trwyn nac yn y gwefus.

GWISG ADDYSG GORFFOROL

Merched:

- Crys polo yr Adran Addysg Gorfforol (du a gwyn)
- Siorts du a Gwyn yr Adran Addysg Gorfforol
- Legins du yr Adran Addysg Gorfforol
- Opsiynol: 'Fleece' du yr ysgol neu 'Hoodie' yr Adran Addysg Gorfforol
- Esgidiau ymarfer cywir (nid Vans, Converse, 'high tops' na 'daps')

Bechgyn:

- Crys rygbi llewys hir neu Crys polo yr Adran Addysg Gorfforol
- Siorts du a gwyn Addysg Gorfforol
- Opsiynol: 'Fleece' du yr ysgol neu 'Hoodie' yr Adran Addysg Gorfforol
- Esgidiau ymarfer cywir (nid Vans, Converse, 'high tops' na 'daps')
- Esgidiau rygbi/pêdroed (dim stydiau metel)